



Alambra – Nod Gwasg YMP ar y cefn gyda Williams wedi ei argraffu

bosib eu hadnabod wrth eu cymharu â'r darnau mân a ddaeth o'r domen: *Anemone; Vase; Semi-china; Chinese; Lapis Lasuli; Persian Rose; spongeware;* amryw o jygiau a mygiau; *mocha; 'sheet pattern'; 'chequered ware'* a nifer o batrymau di-enw. Mae hyn yn awgrymu fod y mwyafrif o'r patrymau wedi eu cynhyrchu cyn 1860 pan oedd y teulu Williams yn berchnogion. Fodd bynnag ni ellir bod yn sicr

sylweddol yn Ynysmeudwy neu trwy fod yn fygwthiad i'w fusnes, ac o ganlyniad fe benderfynodd eu prynu. Felly, yn fy marn i, mae'n siŵr eu bod wedi cynhyrchu crochenwaith gyda'r llythrennau L and M; YP; YMP yn ogystal â rhai darnau heb farc. Fodd bynnag mae'n anodd, bron yn amhosib, i fod yn sicr pa batrymau (heblaw am *Asiatic Pheasant*) a gynhyrchwyd ganddynt.



Woodbine

Mae'r marc Stone China ar gefn nifer o blatiau a phlatiau cig. Ar gefn yr '*Oriental Birds*' fe welwch Ironstone China, Mellor Venables & Co.

Coffaol

Jwg gyda dolen siâp brigyn, border o batrwm '*Alma*' a baneri Ffrainc a Phrydain wedi eu croesi – gyda'r geiriau '*God Save the Queen, May they ever be united, God Save the Emperor*' – c1854. (Cafwyd hyd i nifer o

Patrymau Eraill

Mwg gyda sgwariau arno, ynghyd â dysglau cawl mewn glas a gwyn, du a gwyn, oren a gwyn, melyn a gwyn.

Crochenwaith Mocha yn cynnwys Mesur Imperial.

Paentio â Llaw

Jwg siâp '*Gem*' – '*Gaudy Welsh*' patrwm '*Snowdonia*'.

Platiau Plant

Platiau bychan gyda border rhosyn a tiwlip yn y patrymau



Livinium – Nod Gwasg YMP ar y cefn

fod darnau gyda'r marc YP neu YMP wedi eu cynhyrchu yn ystod cyfnod Lewis a Morgan yn unig. Mae'n debyg bod y marciau wedi eu defnyddio trwy holl gyfnod y crochendi, felly, mae'n amhosib dweud a fu i Lewis a Morgan gyflwyno patrymau newydd o gwbl. Mae'n sicr fod Lewis a Morgan wedi tynnu sylw W. T. Morgan, Llanelli, naill ai trwy wneud elw

Yn ei lyfr *Swansea Pottery and Porcelain*, dywed E. M. Nance fod crochenwaith Ynysmeudwy yn debyg i grochenwaith Lerpwl. Os cewch gyfle ewch i Amgueddfa Abertawe i weld y '*Dorothy Harper Bequest*', sydd yn cynnwys enghreifftiau gwych o grochenwaith Ynysmeudwy. Ewch hefyd i Oriol Glynn Vivian, Abertawe. Cyflwynodd Capel Maes yr Haf (A), Castell-nedd fowlen fedydd, sydd yn enghraifft werthfawr o safon crochenwaith Ynysmeudwy, i amgueddfa Castell-nedd. Ewch ati i ddarganfod rhai o'r llestri Cymreig a gynhyrchwyd mewn pentre bychan ger Pontardawe.

Patrymau Ynysmeudwy

Trosluniau

Priory	Woodbine	Flora
Rio	Wreath	Fountain
Rural	Alambra	Gem
Star	Alma	Ivey
Semi-	Asiatic	Lapis Lazuli
China	Pheasant	
Vase	Chantry	Livinium
Water	Chinese	Nankin
	nymph	
Willow	Eastern	Oriental Birds



'Relief' – Patrwm rhosyn wedi ei baentio â llaw – melyn, gwyn neu un llw



R10 – Dysgl heb farc ond ar blatiau R10 dangosir nod Gwasg YMP 'R10' wedi ei argraffu

ddolenni siâp brigyn ym mhartrwm '*Alma*' wrth gloddio).

'Relief'

Jwg â gwaelod sgwâr gyda cheriwbiaid yn dal blodau – mewn lystar, hufen a lystar, glas cobalt a gwyn, a nifer o liwiau plaen.

Jwg â gwaelod sgwâr '*Gem*' gyda Lili'r Maes mewn cerfwded lliw hufen a lystar, lystar, a hefyd lliw plaen gyda chlwr arni.

'*Blind Man's Buff*'; '*Red Riding Hood*'. Platiau eraill gyda golygfeydd gwledig neu hela. Cafodd mwgiau plant eu cynhyrchu hefyd gyda'r wyddor neu '*The House that Jack Built*' arnynt. Mae rhai llestri gyda marc a rhai heb farc.

'Lead Glaze' a 'Salt Glaze'

Amryw o jwgiau o wahanol fathau a chosteli gwin. Y marc yw:

YNYSMEUDWY POTTERY SWANSEA VALE.

'Creamware'

Gellir gweld enghraifft ardderchog o fasged cnau castan yn amgueddfa Abertawe.

Marciau Crochenwaith Ynysmeudwy

YMP – nod gwasg
YP – nod gwasg
Williams – wedi ei argraffu
WW – wedi ei argraffu
L and M – wedi ei argraffu



Sgwariau – Jwg heb farc